

2018 Rhif (Cy.)

2018 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A494
(Loggerheads, Sir Ddinbych i
Wernymynydd, Sir y Fflint) (Terfyn
Cyflymder 40 mya) 2018

The A494 Trunk Road
(Loggerheads, Denbighshire to
Gwernymynydd, Flintshire) (40
mph Speed Limit) Order 2018

Gwnaed 30 Tachwedd 2018

Made 30 November 2018

Yn dod i rym 3 Rhagfyr 2018

Coming into force 3 December 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A494, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 84(1)(a), (2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a pharagraff 27(1) o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A494 Trunk Road, in exercise of the powers conferred upon them by section 84(1)(a), (2) and 124(1)(d) of, and paragraph 27(1) of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984(1) and after consultation with the Chief Officer of North Wales Police, make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Loggerheads, Sir Ddinbych i Wernymynydd, Sir y Fflint) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2018 a daw i rym ar 3 Rhagfyr 2018.

1. The title of this Order is the A494 Trunk Road (Loggerheads, Denbighshire to Gwernymynydd, Flintshire) (40 mph Speed Limit) Order 2018 and it comes into force on 3 December 2018.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2);

(a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2);

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p.40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c.40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2), and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A494 Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw; ac

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiadau

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt tua 442 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sydd ag arwydd ar gyfer Tafarn y Gelyn, i'r dwyrain o Loggerheads, Sir Ddinbych hyd at bwynt tua 133 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth o'r enw Heol-y-Wern yng Ngwernymynydd, Sir y Fflint.

Dirymiadau

4. Mae Gorchymyn Cefnffyrdd (Terfyn Cyflymder 40 mya) (Rhif 4) (Cymru) 1971(3) a Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Gwernymynydd, Sir y Fflint) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 1999(4) wedi eu dirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

30 Tachwedd 2018

Richard Morgan

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(3) O.S. 1971/1205.

(4) O.S. 1999/1967.

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director; and

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A494 Dolgellau to South of Birkenhead Trunk Road.

Restrictions

3. No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the trunk road that extends from a point approximately 442 metres north-east of the centre-point of its junction with the unclassified road signed to Tafarn y Gelyn, east of Loggerheads, Denbighshire to a point approximately 133 metres north-east of the centre-point of its junction with the unclassified road known as Heol-y-Wern at Gwernymynydd, Flintshire.

Revocations

4. The Trunk Roads (40 mph Speed Limit) (No.4) (Wales) Order 1971(3) and the A494 Trunk Road (Gwernymynydd, Flintshire) (40 mph Speed Limit) Order 1999(4) are revoked.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated

30 November 2018

Richard Morgan

Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

(3) S.I. 1971/1205

(4) S.I. 1999/1967

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A494
(LOGGERHEADS, SIR DDINBYCH I
WERNYMYNYDD, SIR Y FFLINT) (TERFYN
CYFLYMDER 40 MYA) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 84(1)(a), (2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, sy'n dod i rym ar 3 Rhagfyr 2018.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder 40 mya ar ddarn o gefnffordd yr A494 sy'n ymestyn o bwynt tua 442 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sydd ag arwydd ar gyfer Tafarn y Gelyn, i'r dwyrain o Loggerheads, Sir Ddinbych hyd at bwynt tua 133 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth o'r enw Heol-y-Wern yng Ngwernymynydd, Sir y Fflint. Bydd Gorchymynion terfyn cyflymder presennol ar hyd y darn hwn o'r gefnffordd hefyd yn cael eu dirymu a bydd y Gorchymyn hwn yn creu un Gorchymyn terfyn cyflymder sydd wedi ei gydgrynhoi rhwng y 2 bentref.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 3 Rhagfyr 2018, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn, y plan a'r Gorchymynion sy'n cael eu dirymu, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau agor arferol yng Nghanolfan Ymwelwyr Parc Gwledig Loggerheads, Ffordd Rhuthun, yr Wyddgrug CH7 5LH neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1357042.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau statudol lleol/ Gorchymynion traffig parhaol/ 2018).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchymynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A494 TRUNK ROAD (LOGGERHEADS,
DENBIGHSHIRE TO GWERNYMYNYDD,
FLINTSHIRE) (40 MPH SPEED LIMIT) ORDER
2018**

The Welsh Ministers have made an Order in exercise of their powers under sections 84(1)(a), (2) and 124(1)(d) of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on 3 December 2018.

The effect of the Order is to impose a 40 mph speed limit on a length of the A494 trunk road that extends from a point approximately 442 metres north-east of the centre-point of its junction with the unclassified road signed to Tafarn y Gelyn, east of Loggerheads, Denbighshire to a point approximately 133 metres north-east of the centre-point of its junction with the unclassified road known as Heol-y-Wern at Gwernymynydd, Flintshire. Existing speed limit Orders along this length of the trunk road will also be revoked and this Order will create a single consolidated speed limit Order between the 2 villages.

During a period of 6 weeks from 3 December 2018 a copy of the Order, plan and the Orders being revoked may be inspected, free of charge, during normal opening hours at Loggerheads Country Park Visitor Centre, Ruthin Road, Mold CH7 5LH or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1357042.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Permanent Traffic Orders/ 2018).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government